Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion

Syndrom Cauda Equina

Gwasanaeth Ffisiotherapi

Mae llawer o gleifion yn cael cyfuniad o boen yn y cefn, poen yn y coesau, diffyg teimlad yn y coesau, a gwendid. Gallai'r symptomau hyn beri pryder i chi, ond nid oes angen sylw meddygol brys arnynt o reidrwydd.

Gall y cyflwr cefn prin ond difrifol, Syndrom Cauda Equina, arwain at niwed neu anabledd parhaol a bydd angen sylw gan Dîm Sbinol Arbenigol Brys.

Rhybuddion Syndrom Cauda Equina

- Colli teimlad/pinnau bach rhwng cyhyrau mewnol y glun neu eich organau rhywiol
- Diffyg teimlad yn neu o amgylch y rectwm neu'r ffolennau
- Teimlad gwahanol wrth ddefnyddio papur toiled i sychu'ch hun
- Anhawster cynyddol wrth geisio troethi
- Anhawster cynyddol wrth geisio stopio neu reoli llif eich wrin
- Colli teimlad wrth basio wrin
- Gollwng wrin neu angen defnyddio padiau
- Ddim yn gwybod a yw eich pledren yn llawn neu'n wag
- Methu stopio symudiadau'r coluddyn neu ollyngiadau
- Colli teimlad wrth basio symudiadau'r coluddyn
- Newid yn y gallu i gael codiad neu had-daflu
- Colli teimlad yn yr organau rhywiol yn ystod cyfathrach rywiol

O.N.: GALLAI UNRHYW GYFUNIAD O'R RHYBUDDION UCHOD FOD YN SYMPTOMAU O SYNDROM CAUDA EQUINA. EWCH I ADRAN DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYS AR UNWAITH AM AM**GYMORTH BRYS.**

Cydnabyddiaeth: Mae'r daflen wybodaeth hon yn cyfeirio at waith gan Dr Susan Greenhalgh, Chris Mercer a Laura Finucane. (h) Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Bolton a Phrifysgol Canol Sir Gaerhirfryn.